



Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf

5 Ionawr 2024

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn, Caerdydd ac ar-lein

Yn bresennol

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde, Marie Daly, Alexia Course a Peter Strachan.

Hefyd yn bresennol

Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol), Lewis Brencher a Jeremy Morgan (Ysgrifennydd).

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim.

1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

1c. Datgan Buddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Sylw i ddiogelwch.

Trafododd y Bwrdd ddull gweithredu newydd ar gyfer trefniadau gaeafu. Nododd enghreifftiau lle mae hyn yn cael ei roi ar waith, bod y contractwr yn cymryd cyfrifoldeb dros hawliadau, a bod y perfformiad yn dda iawn ar hyn o bryd. Croesawodd y Bwrdd y gwasanaeth ond gofynnodd a fyddai modd cynnwys y sector cyhoeddus drwy, er enghraifft, asiantau cefnffyrdd. Cytunwyd y dylid ystyried hyn y tro nesaf y bydd y gwasanaeth yn cael ei gaffael.

3. Sylw i Gwsmeriaid

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau Genesis a Garland. Roedd y ddau weithrediad yn cynnwys gweithio'n agos gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gydag amrywiol wersi wedi'u dysgu a'u defnyddio. Nodwyd bod cwmnïau eraill yn cysylltu â TrC am arferion da o ran delio â digwyddiadau. Cytunodd y Bwrdd i ymchwilio i'r posibilrwydd o brynu tocyn trên ar yr un pryd â thocyn digwyddiad [**Cam Gweithredu Alexia Course**].

4. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir. Nodwyd a diwygiwyd y log camau gweithredu diweddaraf.

Cytunwyd bod angen i durn olwynion Gogledd Cymru gael ei drafod gan Dîm Arwain Gweithredol TrC dan arweiniad Dan Tipper ac Alexia Course, gyda nodyn i'w roi i'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf **[Cam Gweithredu gan Dan Tipper ac Alexia Course]**.

5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd y trosolwg yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Roedd perfformiad Llinellau Craidd y Cymoedd dros y cyfnod diwethaf yn rhesymol. Roedd perfformiad Cymru a'r Gororau wedi gweld sawl cyfnod o welliant ond gwelodd cyfnod yr Hydref ostyngiad yn bennaf oherwydd difrod gan olwynion ar draws y fflyd ehangach. Nodwyd wrth y Bwrdd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda TOCs eraill i ddefnyddio eu cyfleusterau troi teiars i wneud iawn am ôl-groniad TrC. Mae'r achos sylfaenol yn cael ei archwilio. Bydd CAF yn rhannu data â Network Rail i bennu'r lleoliadau sy'n achosi'r rhan fwyaf o broblemau. Cytunodd y Bwrdd i gomisiynu adolygiad llawn o berfformiad yr hydref yng nghyd-destun y gwaith sy'n cael ei wneud gan SNC Lavalin **[Cam Gweithredu Jan Chaudhry Van der Velde]**.
- Cytunodd y Bwrdd i sefydlu is-bwyllgor sy'n ymwneud â pherfformiad i ddisodli'r galwadau presennol ar cl.197s a cl.175, i gyfarfod bob pythefnos. Cytunwyd y bydd Peter Strachan a Julian Edwards yn ymuno â'r pwyllgor fel Cyfarwyddwyr Anweithredol. Cytunwyd y bydd aelodau eraill a'r cylch gorchwyl yn cael eu datblygu gan Jan Chaudhry Van der Velde ac y cytunir arnynt yn ffurfiol yn y cyfarfod nesaf **[Cam Gweithredu]**.
- **[REDACTED]**
- **[REDACTED]**
- **[REDACTED]**
- **[REDACTED]**
- Dangosodd MKIV berfformiad da yng Nghyfnod 9 ond roedd problemau dros gyfnod y Nadolig gyda darpariaeth locomotif yn dal i ddarparu materion technegol. Mae gwaith yn parhau gyda DB Cargo i unioni'r sefyllfa. **[REDACTED]**
- **[REDACTED]**
- Mae'r amserlen newydd rhwng Wrecsam a Bidston wedi arwain at welliant sylweddol o ran amllder a phrydlondeb. Ar y cyfan, mae rhanddeiliaid yn croesawu'r newid i'r amserlen ac mae gweithio'n agos gyda'r grŵp defnyddwyr wedi arwain at y set ddelfrydol o gyfaddawdu. Gofynnodd y Bwrdd a ddylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu refeniw **[Cam Gweithredu Marie Daly]** ac i ddiolch i Jez Williams, swyddog llinell y llwybr, a arweiniodd y ffrydiau gwaith ar gyfer cydlynu gwelliannau traws-swyddogaethol **[Cam gweithredu Jan Chaudhry Van der Velde]**. Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd canolbwyntio ar y gwasanaeth hwn.
- Nid yw'r gwaith ar gegin gorsaf Casnewydd wedi'i gyflwyno. Hysbyswyd y Bwrdd bod hyn yn effeithio ar refeniw. Cytunwyd y bydd Marie Daly yn adolygu drwy dîm prosiect y gorsafoedd **[Cam gweithredu]**.



- Mae teithio heb docyn yn dal yn broblem. [REDACTED]
[REDACTED] Cytunwyd bod angen gwneud rhagor o waith i ddarparu data mwy cadarn am gyfrif nifer y teithwyr [**Cam Gweithredu Marie Daly**].

5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch

[REDACTED]

6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r dangosfwrdd risg.

7. Adolygiad ariannol

Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.

Mae trafodaethau da wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ar gyllideb y flwyddyn nesaf a chafwyd rhai arbedion ychwanegol.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn ystod y mis a'r flwyddyn ar gyfer gwariant gweithredol a chyfalaf.

Nododd y Bwrdd yr adolygiad ariannol cyfnodol.

Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.

8. Diweddariad marchnata

Nododd y Bwrdd ddiweddariad marchnata a oedd yn cynnwys:

- [REDACTED]
 - Ymgyrchoedd digidol a rhai o'r mesurau mwy tactegol sy'n cael eu cymryd.
 - [REDACTED]
 - Manteision y gwaith gwyddor ymddygiadol parhaus.
 - [REDACTED]
- [REDACTED]

9. Diweddariad masnachol

Nododd y Bwrdd yr adroddiad diweddar masnachol:



- [Redacted]
- [Redacted]
- [Redacted]

10. Estyniad y giatiau

Nododd y Bwrdd adroddiad yn crynhoi'r dull gweithredu ar gyfer cyflawni targed darpariaeth giatiau ymrwymedig o 80% ar draws y 13 gorsaf â giât ar rwydwaith TrC. Nodwyd y canlynol gan y Bwrdd:

- [Redacted]
- [Redacted]
- [Redacted]
- [Redacted]

Nododd y Bwrdd yr adroddiad a chymeradwyo'r camau nesaf arfaethedig:

- Gweithredu'r newidiadau a'r gwelliannau arfaethedig i'r holl gatiâu presennol, fel y nodir yn yr adroddiad.
- Ymchwilio i'r defnydd o SCU o Bell fel ased ategol hyfyw.
- Parhau i ddatblygu'r strategaeth VHP.

11. Prisiau tanysgrifiadau

[Redacted]



12. Amserlen Rhagfyr 24

Cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad i ohirio'r newid arfaethedig i Amserlen Metro-C Craidd y Cymoedd ym mis Rhagfyr 2024, a oedd wedi'i gynllunio i gyflymu amseroedd teithio ar lwybrau Caerdydd a Threherbert / Aberdâr / Merthyr Tudful, tan fis Mai 2025 o ganlyniad i oedi o ran argaeledd cl.398 ar gyfer gwasanaeth. Cytunwyd y bydd Lewis Brencher yn cysylltu ag ysgol Esgob Llandaf i drafod unrhyw effeithiau a'r potensial ar gyfer sefydlu gwasanaeth bws hunan-gyllidol [**Cam gweithredu**].

13. Pêl-droed

Mae cynllun wedi cael ei ddisbarthu i ddelio â chludo cefnogwyr ar gyfer gemau Gwanwyn 2024. Cynhelir cyfarfod gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru yr wythnos nesaf. Nododd y Bwrdd broblem gyda'r tarfu ar reilffordd Rhymini ar gyfer yr ail gêm. Cytunwyd na ddylai Amey feddiannu.

14. Talu wrth Fynd (PAYG)

Ymunodd Helen Mitchell â'r cyfarfod

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y cynllun peilot, y camau nesaf a dulliau cyfathrebu. Roedd y peilot yn llwyddiannus ar y cyfan ond mae rhai materion yn cael eu datrys.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.